

## Helaethiad I: Ymatebion i'r Cwmpasu

Tudalen wag o fwriad.

Rhif Tudalen	Paragraff	Sylw
	1.1.1	Sylwch y cyfunwyd 'Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2007' ym mis Mawrth 2010 ac y dylid cyfeirio atynt o hyn ymlaen fel Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.
	1.1.5	Dylid nodi bod "Rheoli Safleoedd Natura 2000 – Darpariaethau Erthygl 6 Cyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC" yn argymhell lle nad oes modd penderfynu na fydd cynllun neu brosiect dan ystyriaeth yn cael effaith andwyol ar safle Ewropeaidd neu Ramsar, yna dylid edrych ar atebion eraill sydd "yn parchu cyfanrwydd y safle dan sylw'n well" Yn ddelfrydol, byddai gwahanol ddewisiadau o'r fath yn osgoi'r effaith andwyol (debygol) a nodwyd ond, hefyd, dylid ystyried dewisiadau sy'n "llai andwyol" na'r hyn a gynigiwyd.
	1.1.6	Sylwch fod Amcanion Cadwraeth safleoedd heblaw rhai morol yng Nghymru'n cael eu cyflwyno yn y Cynlluniau Rheoli Craidd perthnasol sydd i'w cael ar wefan CCGC: <a href="http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/special-sites-project.aspx">http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/special-sites-project.aspx</a>
	Adran 2	Mae hwn yn grynoded defnyddiol a di-lol o'r safleoedd Ewropeaidd a rhyngwladol sydd yn yr HRA hwn. Fodd bynnag, tra'r ydym yn deall bod rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1, dylid cyfeirio'n eglur at yr holl amcanion cadwraeth nodweddion safle (fel y manylir yn y pecynnau Rheoliad 33 a chynlluniau rheoli craidd). Ni ddylai fod angen atgynhyrchu'r amcanion cyflawn, neu'r Cynlluniau eu hunain yn adroddiad yr HRA ei hun, ond byddai Atodiad 1 ychydig yn fwy cynhwysfawr gyda chroesgyfeirio eglur at y cynllun perthnasol yn cynorthwyo osgoi dryswch. Dylid nodi hefyd nad yw proses Arfarnu Rheoliadau Cynefinoedd yr un fath â'r 'asesu priodol'. Mae'r HRA yn cyfeirio at y broses asesu gyfan ar sail y Rheoliadau, gan gynnwys canfod safleoedd a allai deimlo effaith y Cynllun, y prawf am effeithiau sylweddol tebygol, asesiad priodol manylach (os bydd angen). Hefyd, os bydd yr asesiad yn methu dangos na fyddai'r cynllun yn cael unrhyw effeithiau andwyol, rhaid dilyn proses i brofi dewisiadau gwahanol, gan gyflwyno achos dros resymau hanfodol o fudd cyhoeddus gor-redol a datblygu mesurau digolledu. Dim ond un cyfnod o'r broses hon yw'r asesiad priodol ac, er mwyn osgoi dryswch, dylid diffinio'r amrywiol gyfnodau'n eglur.
	2.1.2	ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd Byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am gyflwr nodweddion lle bo ar gael, fel y gwnaed gyda safleoedd eraill yn yr adran hon.
	2.1.5	ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru Gwelwch y sylwadau ar adran 2 – dylid nodi holl nodweddion cymhwysol y safle yn yr adran hon a syniad o'u hamcanion cadwraeth ac asesiadau cyflwr. Fel y mae'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos fod gan nodwedd yr ystlum pedol lleiaf amcan cadwraeth.

Rhif Tudalen	Paragraff	Sylw
	2.1.8	ACA Twyni Bae Caerfyrddin Nid yw morlynnoedd arfordirol yn nodwedd gymhwysol ACA Twyni Bae Caerfyrddin.
	2.1.9	Er ei fod yn ddefnyddiol canolbwyntio yn yr adran hon ar y ffactorau rheoli allweddol sy'n dylanwadu ar gyflwr nodweddion, dylid nodi hefyd elfennau'r amcanion cadwraeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun Rheoli Traethlin, er enghraifft, pwysigrwydd cynnal prosesau naturiol yr arfordir a chyflenwad gwaddod ar sail y dangosyddion perfformiad ar gyfer nodweddion y twyni cynnar.
	2.1.14	ACA Sir Benfro Forol Gwelwch y sylwadau ar adran 2 – dylid nodi holl nodweddion cymhwysol y safle yn yr adran hon a syniad o'u hamcanion cadwraeth ac asesiadau cyflwr.
	2.1.15	Er ei fod yn ddefnyddiol canolbwyntio yn yr adran hon ar y ffactorau rheoli allweddol sy'n dylanwadu ar gyflwr nodweddion, dylid nodi hefyd elfennau'r amcanion cadwraeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun Rheoli Traethlin, er enghraifft, pwysigrwydd cynnal prosesau aberol naturiol. Byddai'n ddefnyddiol hefyd cynnwys gwybodaeth am gyflwr nodweddion lle bo ar gael, fel y gwnaed gyda safleoedd eraill yn yr adran hon.
	2.1.16	ACA Afonydd Cleddau Sylwch fod llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i> hefyd yn nodwedd gymhwysol o'r safle.
	2.1.28	AGA Gwales Defnyddiwch y cyfeiriad cywir at AGA Ynys Sgogwm ac Ynys Sgomer. ACA Bae Aberteifi.
	2.1.44	Er ei fod yn ddefnyddiol canolbwyntio yn yr adran hon ar y ffactorau rheoli allweddol sy'n dylanwadu ar gyflwr nodweddion, dylid nodi hefyd elfennau'r amcanion cadwraeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun Rheoli Traethlin, er enghraifft, pwysigrwydd cynnal prosesau naturiol yr arfordir a chyflenwad gwaddod. Byddai'n ddefnyddiol hefyd cynnwys gwybodaeth am gyflwr nodweddion lle bo ar gael, fel y gwnaed gyda safleoedd eraill yn yr adran hon.
	2.1.47	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau Byddai'n ddefnyddiol hefyd cynnwys gwybodaeth am gyflwr nodweddion lle bo ar gael, fel y gwnaed gyda safleoedd eraill yn yr adran hon.
	2.1.48	ACA Cors Fochno Nid yw'r dyfrgi'n nodwedd gymhwysol ACA Cors Fochno.
	2.1.57	ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn Byddai'n cynorthwyo pe bai modd eglurhau nad yw'r dyfrgi, er ei fod yn bresennol ar y safle, yn nodwedd gymhwysol yr ACA.
	2.1.58	Byddai'n ddefnyddiol hefyd cynnwys gwybodaeth am gyflwr nodweddion lle bo ar gael, fel y gwnaed gyda safleoedd eraill yn yr adran hon.

Rhif Tudalen	Paragraff	Sylw
	2.1.59	Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynnal prosesau naturiol yr arfordir a chyflenwad gwaddod i gadw nodweddion yr ACA hon mewn cyflwr ffatriol. Fodd bynnag, i sicrhau cyflwr ffatriol yn y tymor canolig i hir bydd angen cynnal cyfundrefn dwyni egniol hefyd. Yn y pen draw, bydd hyn yn gofyn rheoli'r safle cyfan yn gyfun ac nid yr ymylon arfordirol yn unig fel bod corff tywod sy'n ffurfio'r twyni'n gallu mudo tua'r tir a chadw arwynebedd y cynefinoedd twyni a'u sefyllfa berthnasol i'r ffrâm lanwol felly.
	2.1.60	ACA Coed Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion Byddai'n cynorthwyo pe bai modd eglurhau nad yw'r dyfrgi a'r eog, er eu bod yn bresennol ar y safle, yn nodweddion cymhwysol yr ACA.
	2.1.66	ACA Afon Eden Mae'r ffactorau a sensitifedd allweddol sy'n dylanwadu ar nodweddion ACA Afon Eden mae'n cael eu cyflwyno yng Nghynllun Rheoli Craidd y Safle (er enghraifft, adran 4.1 – dangosyddion perfformiad). Felly, rydym yn aneglur pam y caiff ei ddatgan eu bod yn "anhysbys".
	2.1.67	ACA Corsydd Llŷn Mae corstiroedd calchaid gyda <i>Cladium mariscus</i> a rhywogaeth o'r <i>Caricion davallianae</i> yn nodwedd gymhwysol y safle hwn hefyd.
	2.1.69	Mae'n werth nodi bod rhan o'r safle, SoDdGA Aber Geirch, yn cynnwys elfen arfordirol a, thra bo'r sensitifedd a nodwyd yn yr HRA yn adlewyrchu'r materion allweddol i fwyafrif y safle, mae ffactorau ychwanegol o ran elfen hon yr ACA all fod yn berthnasol yn benodol i CRhT2. Nodwn y soniwyd am hyn yn yr asesiad yn adran 5.
	2.1.86	ACA Twyni Abermenai i Aberffraw Rydym yn aneglur ynghylch y cyfeiriad at "twyni sefydlog lweydydd a ddigalchwyd" yn yr adran hon am nad yw hyn yn nodwedd o'r safle hwn.
	2.1.88	Sylwch fod pori'n cael ei gynnal gan wartheg mewn gyrrroedd agos ar y safle hwn ac nad yw mater gridiau gwartheg yn codi mwyach.
	2.1.92	ACA Glan-traeth Byddai'n cynorthwyo pe bai modd eglurhau nad yw nodwedd y twyni sefydlog gyda phlanhigion llysieuol (twyni llwydion), er ei bod yn bresennol ar y safle, yn nodwedd gymhwysol yr ACA.
	2.1.98	ACA / AGA Arfordir Ynys Gybi Byddai'n cynorthwyo pe bai modd eglurhau nad yw nodwedd y morlo llwyd, er ei bod yn bresennol ar y safle, yn nodwedd gymhwysol yr ACA.
	2.1.106	ACA Bae Cemlyn Er ei bod yn ddefnyddiol canolbwyntio yn yr adran hon ar y ffactorau rheoli allweddol sy'n dylanwadu ar gyflwr nodweddion, dylid nodi elfennau'r amcanion cadwraeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun Rheoli Traethlin hefyd, er enghraifft, pwysigrwydd cynnal y grib raeanog sy'n ganolog i gyfanrwydd y safle.
	2.1.108	ACA Y Fenai a Bae Conwy Byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am gyflwr nodweddion lle bo ar gael, fel y gwnaed gyda safleoedd eraill yn yr adran hon.

Rhif Tudalen	Paragraff	Sylw
	2.1.116	ACA Coedydd Aber Byddai'n cynorthwyo pe bai modd eglurhau nad yw nodweddion cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r planhigion <i>Ranunculus fluitantis</i> a <i>Callitriche-Batrachion</i> ac eog yr lwerydd a dyfrgi, er eu bod yn bresennol ar y safle, yn nodweddion cymhwysol yr ACA.
	2.1.119	ACA Pen y Gogarth Byddai'n cynorthwyo pe bai modd eglurhau nad yw nodweddion porfeydd Calaminaraidd o'r <i>Violetalia calaminariae</i> , dolydd Molinia ar briddoedd calchaid, mawnaidd neu gleiog llawn llaid ( <i>Molinion caeruleae</i> ), palmentydd carreg galch, ogofâu heb fod ar agor i'r cyhoedd, a choedwigoedd <i>Tilio-Acerion</i> o lethrau, sgrïau a cheunentydd a'r ystum pedol lleiaf, er eu bod yn bresennol ar y safle, yn nodweddion cymhwysol yr ACA.
	2.1.122	ACA Coedydd Penrhyn Creuddyn Byddai'n cynorthwyo pe bai modd eglurhau nad yw nodweddion palmentydd carreg galch, ogofâu heb fod ar agor i'r cyhoedd, a choedwigoedd ffawydd <i>Asperulo-Fagetum</i> a'r ystum pedol lleiaf, er eu bod yn bresennol ar y safle, yn nodweddion cymhwysol yr ACA.
	2.1.2	Nodwn a derbyniwn yr hepgorwyd ACA Porth Tywyn, ACA ac AGA Aber Dyfrdwy ac ACA Dyfrdwy a Llyn Tegid o'r asesiad hwn ar sail pellter a diffyg llwybrau effaith.
	Tabl 2.1	Crynodeb o'r ymatebion ymgynghori presennol Tra bo CCGC yn croesawu cynnwys ein sylwadau ar yr HRA fel cymorth i ddangos yn eglur sut y rhoddwyd sylw i'n materion a phryderon penodol, dylid nodi y cymrwyd y sylwadau sy'n cael eu rhestru yn Nhabl 2.1 o nodiadau cyfarfodydd na chadarnhawyd gyda staff CCGC cyn cyflwyno unrhyw ddrafft asesiad. Felly, ni ddylid ystyried eu bod yn cynrychioli ymatebion ffurfiol na chanllawiau CCGC i'r arfarnu hwn.
	Tabl 3.1	Dylid nodi, ar sail Rheoliadau 61, 62 a 66 a Rheoliadau 103 – 105, y gallai fod tri chyfnod yn dilyn cwblhau'r asesiad priodol; y prawf am wahanol ddewisiadau, yr achos dros resymau hanfodol o fudd cyhoeddus gor-redol (IROPI), ac ystyried mesurau digolledu.
	3.2.2	Rydym yn croesawu cynnwys pob un o'r pedwar dewis polisi posibl yn yr asesiad hwn.
	3.3.1	Tra bo'n gywir datgan nad oes angen asesu dim ond y dewis polisi dethol (ffafriedig) yn yr HRA hwn, gall fod yn werth sylwi, os bydd yr asesiad yn dod i gasgliad nad oes modd diystyru effeithiau andwyol, yna efallai y bydd angen ystyried dewisiadau polisi eraill i lwyddo prawf gwahanol ddewisiadau. Os felly, byddem yn rhagweld y byddai proses cloriannu a dewis polisi sy'n sail i gynhyrchiad CRhT2 ateb gofynion y prawf hwn i raddau helaeth ond gall fod yn ddefnyddiol ystyried hyn wrth asesu'r dewisiadau polisi dewisol.
	3.3.7	Gall fod yn anodd amcangyfrif gallu polisïau CRhT2 i effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau arfordirol (morol, islanwol, rhynglanwol a daearol) dros gyfnod yn absenoldeb gwybodaeth o fodelu manwl (fel ar gyfer CHaMP). Felly, rydym yn croesawu'r bwriad i wneud gwaith mapio a modelu ychwanegol ar gyfer yr asesiad hwn.

Rhif Tudalen	Paragraff	Sylw
	3.3.13	<p>Mae'n bwysig nodi bod gwahaniaeth amlwg wrth ddefnyddio'r termau "lliniaru" a "digolledu" mewn cysylltiad â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Os daw'r asesiad i gasgliad nad oes modd dangos na fydd polisïau'r Cynllun yn cael unrhyw effeithiau andwyol, ac y gall fod colled neu niwed i nodweddion, yna dylai lluniwr y Cynllun geisio'i newid neu weithredu mesurau fel nad yw'r effeithiau a phrosiectau eraill (mesurau osgoi neu ddiddymu) neu'n cael eu gostwng fel nad ydynt mwyach yn arwyddocaol, yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill (mesurau gostwng). Caiff hyn ei wneud yng ngoleuni amcanion cadwraeth y safleoedd ac, yn aml, caiff ei alw'n lliniaru. Os nad oes modd osgoi, diddymu na gostwng unrhyw effeithiau andwyol a nodwyd trwy weithredu mesurau o'r fath, yna gall y Cynllun fwrw ymlaen yn unig os nad oes unrhyw wahanol ddevisiadau llai andwyol ac achos dros IROPI yn cael ei wneud a'i dderbyn. Bryd hynny mae gofyniad i ystyried mesurau digolledu, h.y. y gweithrediadau hynny sy'n angenrheidiol i gynnal cyfanrwydd y safle ar waethaf yr effeithiau andwyol. O dderbyn y diffiniad hwn, mae'n anoda gweld sut y gallai unrhyw greu cynefin a nodwyd yn lle colledion neu niwed all fod i nodweddion y safle, ond yn cael ei wneud oddi allan i ffiniau'r safle, ateb gofynion yr amcanion cadwraeth a chael ei ystyried fel lliniaru. Felly, os caiff mesurau o'r fath eu nodi fel angenrheidiol o ganlyniad i'r asesiad, yna dylent gael eu diystyru fel lliniaru a dim ond eu hystyriodd os bydd y cynllun yn llwyddo'r prawf IROPI.</p>
	3.3.15-3.3.17	<p>Onid bod y gwahaniaeth rhwng 'lliniaru' a 'digolledu' (fel y disgrifiwyd uchod) yn cael ei gofio, mae hwn yn ddisgrifiad clir a chryno iawn o broses benderfynu atebion eraill ac IROPI.</p>
	3.4.2	<p>Heblaw pan fo mesurau lliniaru'n cael eu hystyried (gwelwch y sylwadau ar 3.3.13) mae hwn yn strwythur rhesymol ar gyfer yr adroddiad HRA.</p>
	4.2.2	<p>Rydym yn cytuno y bydd y prif effeithiau 'ar y cyd' all godi o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) awdurdodau lleol yn berthnasol i neilltuo tiroedd ar gyfer tai, cyflogaeth ac ati, ond dylid nodi hefyd unrhyw effeithiau cysylltiedig ag isadeiledd, yn enwedig cludiant, polisïau mwynau a gweithgareddau adloniadol.</p>
	4.2.3	<p>Tra'r ydym yn derbyn bod CDLI a TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd yn ddogfennau allweddol wrth asesu'r posibilrwydd effeithiau'r CRhT2 'ar y cyd' â chynlluniau a phrosiectau eraill, dylech hefyd ystyried effeithiau tebygol cynlluniau penodol fel cynlluniau cludiant rhanbarthol a chenedlaethol, cynlluniau gwastraff, strategaethau mwynau a chynlluniau a chynigion ynni, yn enwedig y Datganiadau Polisi Cenedlaethol cysylltiedig ag atomfeydd newydd ac ynni adnewyddadwy.</p>
	Tabl 5.1	<p>ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd. Tra'r ydym yn cymeradwyo agwedd ragofalus yr asesiad hwn mewn cysylltiad ag ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd ac yn croesawu'r gynhabyddiaeth y gall polisïau CRhT2 effeithio ar nifer o nodweddion y safle, yn enwedig ffurf a swyddogaeth nodwedd yr Aberoedd, o dderbyn pellter y safle hwn o ardal CRhT2 a diffyg llwybrau effaith amlwg, ni fyddem yn disgwyl i effeithiau unrhyw ddevisiadau polisi CRhT2 Gorllewin Cymru fod yn debygol neu, pe byddent yn digwydd, iddynt fod yn arwyddocaol yn yr achos hwn</p>
	Tabl 5.1	<p>AGA Bae Caerfyrddin. Gwelwch y sylwadau ar ACA Bae Caerfyrddin.</p>

Rhif Tudalen	Paragraff	Sylw
	Tabl 5.1	ACA Sir Benfro Forol. Tra'r ydym yn deall na fyddai dewis polisi Dim Ymyriad Gweithredol (NAI) o angenrheidrwydd yn peri effeithiau andwyol o ganlyniad i'r Cynllun, dylid nodi, oherwydd bod y nodwedd morlyn arfordirol yn cael ei gadw, o leiaf yn rhannol, trwy gynnal amddiffynfeydd presennol yr arfordir, yna gallai rhoi'r gorau i'r amddiffynfeydd hyn beri effeithiau andwyol ar y nodwedd hon. Felly, byddem yn argymhell cymryd agwedd debyg i'r dewis Adlinio Rheoledig (MR) yn yr achos hwn.
	Tabl 5.1	ACA Afonydd Cleddau. Fe all polisïau HTL ar hyd ACA Afonydd Cleddau isaf arwain at darfu ac effeithiau rhwystr ar nodweddion yr ACA o ganlyniad, er enghraifft, gwaith cynnal adeileddau presennol. Tra'r ydym yn deall y bydd hyn yn dibynnu'n fawr ar fanylion unrhyw gynigion, ac y dylid delio â hyn ar lefel y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd (FRMS), gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru fydd yn angenrheidiol i osgoi, ddileu neu ostwng unrhyw effeithiau sylweddol tebygol, dylid ei gydnabod yn yr asesiad hwn.
	Tabl 5.1	ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton. Tra gall fod materion yn codi gydag elfen Llynnoedd Bosherton y safle hwn o ran rheoli'r ymylon arfordirol, yn enwedig mewn cysylltiad â dewisiadau polisi MR a NAI, o dderbyn nad yw CRhT2 Gorllewin Cymru'n cwmpasu rhan hon y safle, rydym yn ansicr a yw'n arbennig o berthnasol i'r asesiad hwn.
	Tabl 5.1	ACA Afon Teifi. Gall dewisiadau HTL a MR hefyd fod ag effeithiau tarfu ar y nodweddion pysgod ymfudol a dyfrgwn. Tra'r ydym yn deall bod effeithiau posibl y dewisiadau hyn yn dibynnu ar y cynigion manwl ar gyfer y celloedd hyn, ac yn rhagweld y byddai'r rhain yn cael eu hasesu fel rhan o'r FRMS a HRA lefel Prosiect, byddem hefyd yn disgwyl i'r materion hyn gael eu hystyried o fewn HRA CRhT2 i sicrhau bod y cynlluniau / prosiectau haen is yn lliniaru unrhyw effeithiau posibl yn ddigonol.
	Tabl 5.1	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Tra'r ydym yn deall na fyddai dewis polisi Dim Ymyriad Gweithredol (NAI) o angenrheidrwydd yn peri effeithiau andwyol o ganlyniad i'r Cynllun, dylid nodi, oherwydd bod y nodwedd morlyn arfordirol yn cael ei gadw, o leiaf yn rhannol, trwy gynnal amddiffynfeydd presennol yr arfordir, yna gallai rhoi'r gorau i'r amddiffynfeydd hyn beri effeithiau andwyol ar y nodwedd hon. Felly, byddem yn argymhell cymryd agwedd debyg i'r dewis Adlinio Rheoledig (MR) lle bo nodweddion morlyn arfordirol yn dibynnu ar y fath amddiffynfeydd.
	Tabl 5.1	Cors Fochno. Tra byddai gobaith na fyddai dewis MR o'i ddefnyddio'n ystyriol yn peri effeithiau sylweddol ar safle Cors Fochno, byddai hyn yn dibynnu'n fawr iawn ar fanylion y FRMS lleol a chynigion y cynllun. O ganlyniad, os caiff y dewis polisi hwn ei gymhwyso i unrhyw un o'r celloedd sydd â'r gallu i effeithio ar safle Cors Fochno, dylid ystyried y gallant gael effaith sylweddol debygol a'u trafod yn fanylach gan yr HRA hwn.
	Tabl 5.1	ACA Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn. Gall dewisiadau HTL a MR hefyd fod ag effeithiau tarfu ar y nodweddion pysgod ymfudol a dyfrgwn. Tra'r ydym yn deall bod effeithiau posibl y dewisiadau hyn yn dibynnu ar y cynigion manwl ar gyfer y celloedd hyn, ac yn rhagweld y byddai'r rhain yn cael eu hasesu fel rhan o'r FRMS a HRA lefel Prosiect, byddem hefyd yn disgwyl i'r materion hyn gael eu hystyried o fewn HRA CRhT2 i sicrhau bod y cynlluniau / prosiectau haen is yn lliniaru unrhyw effeithiau posibl yn ddigonol.
	Tabl 5.1	ACA Twyni Abermenai i Aberffraw. Sylwch nad oes llyn ar drwyn Abermenai ac, o dderbyn bod Llyn Rhos Ddu a Llyn Coron gryn bellter tua'r tir, bod unrhyw un o'r polisïau'n annhebygol o gael unrhyw effaith arwyddocaol (cadarnhaol neu negyddol) ar y nodweddion hyn.
	Tabl 5.1	ACA Bae Cemlyn ac AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid. Tra'r ydym yn deall na fyddai dewis polisi Dim Ymyriad Gweithredol (NAI) o angenrheidrwydd yn peri effeithiau andwyol o ganlyniad i'r Cynllun, dylid nodi, oherwydd bod y nodwedd morlyn arfordirol yn



Rhif Tudalen	Paragraff	Sylw
		cael ei gadw, o leiaf yn rhannol, trwy gynnal amddiffynfeydd presennol yr arfordir, yna gallai rhoi'r gorau i'r amddiffynfeydd hyn beri effeithiau andwyol ar y nodwedd hon. Felly, byddem yn argymhell, yn achos nodwedd y morlyn a'r nodweddion adar y mae'n eu cynnal, cymryd agwedd debyg at y NAI i'r un ar gyfer dewisiadau Adlinio Rheoledig (MR) (h.y. 'effaith sylweddol debygol'). Yn ddiweddar gorfennodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol astudiaeth fanwl i ddyfodol y safle hwn a ddylai ysbrydoli asesiad pellach.
	Tabl 5.1	ACA y Fenai a Bae Conwy. Tra'r ydym yn deall bod y dewis MR yn debygol o arwain at greu cynefin rhynglanwol newydd, teimlwn y dylid bod ag agwedd debyg i'r hyn a gymrwyd ar y safleoedd morol eraill yma hefyd ac y dylid ystyried y gall effeithiau dewisiadau polisi MR oherwydd newidiadau posibl i'r broses arfordirol fod yn sylweddol hefyd.
	5.2.2	Rydym yn nodi ac yn derbyn bod ACA Comins Gogledd-orllewin Sir Benfro, ACA Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd, Safle Ramsar Corsydd Ynys Môn a Llŷn, ACA Glynllifon, ACA Glan-traeth, ACA Llyn Dinam, ACA Coedydd Aber ac ACA Coedydd Penrhyn Creuddyn wedi cael eu hepgor o'r asesiad hwn ar sail pellter a diffyg llwybrau effaith yn ogystal ag ACA Porth Tywyn, ACA ac AGA Aber Dyfrdwy ac ACA Dyfrdwy a Llyn Tegid. Byddem hefyd yn awgrymu y byddai modd hepgor AGA Bae Caerfyrddin, ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd ac ACA Twyni Caerfyrddin hefyd trwy ddefnyddio meini prawf tebyg.
	6	Nodwn y bwriad i ddwyn gweddill y safleoedd ymlaen o'r asesiad hwn i'w cloriannu'n fwy manwl pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael ar y dewisiadau polisi dewisol ar gyfer pob uned. Edrychwn ymlaen at roi sylwadau ar elfen hon yr asesiad priodol maes o law.

**Tudalen wag o fwriad.**